| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **25 Medi 2014** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiadau 'ISA260' Swyddfa Archwilio Cymru;**<br>• **Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1).** |
| ARGYMHELLIAD | **Derbyn a nodi'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyrau** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1. CYFRIFON 2013/14**

Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2013/14 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Gorffennaf 2014, pryd bu craffu priodol.

**2. ARCHWILIAD GAN SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiadau 'ISA260' gan yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

**3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2013/14**

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u amlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**4. ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer:
  - Cyngor Gwynedd
  - Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2013/14 (ôl- archwiliad)

**5. LLYTHYRAU CYNRYCHIOLAETH**

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r uchod.

**6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG**

Wedi iddo dderbyn y Llythyrau Cynrychiolaeth wedi'u hardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.